Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Llwynderw**

**Bridgend Road**
**Maesteg**
**CF34 0BA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Tŷ Llwynderw

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 09 Mawrth 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato: Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Tŷ Llwynderw yn darparu amgylchedd cynnes a chyfeillgar i'r bobl gael gofal. Ar y cyfan, mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn gwneud ymdrech i'w hannog i ryngweithio a sgwrsio drwy gydol y dydd. Caiff y cynlluniau personol a'r asesiadau risg eu diweddaru os bydd anghenion unigolion yn newid a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae amgylchedd y cartref yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r staff gofal yn cael eu recriwtio a'u fetio'n briodol, ac yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd i drafod unrhyw faterion proffesiynol neu anghenion datblygu. Mae'r staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n benodol i'r gwasanaeth ers yr arolygiad diwethaf. Caiff gwybodaeth ei rhannu rhwng y rheolwyr a'r staff yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo manwl bob dydd. Mae'r rheolwr a'r dirprwy reolwr yn goruchwylio digwyddiadau yn y cartref yn dda. Ar hyn o bryd, nid oes Unigolyn Cyfrifol wedi'i enwebu, ond mae'r unigolyn sy'n gwneud cais am y rôl wedi ymweld â'r cartref ac yn ymwybodol o'r gofynion rheoleiddiol.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu trin fel unigolion ac yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau drwy gydol y dydd. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am hoff bethau a chas bethau'r bobl a dangosodd y staff gofal eu bod yn meddu ar wybodaeth am y bobl yr oeddent yn eu cefnogi a'u bod yn gyfarwydd â nhw drwy gydol ein hymweliad. Roedd iechyd rhai o'r bobl wedi dirywio ac roeddent yn cael gofal yn eu hystafelloedd, a oedd wedi cael effaith ar ddeinameg y grŵp agos iawn o bobl sy'n byw yn y cartref. Fodd bynnag, roedd y staff gofal yn fedrus wrth annog y bobl i sgwrsio, ymgysylltu a rhyngweithio drwy gydol y dydd, gan lwyddo i gynnal yr awyrgylch cymunedol. Gwelsom fod y bobl yn codi pan oeddent am wneud hynny, yn bwyta pan fyddent am wneud hynny ac yn bwyta'r pethau roeddent am eu bwyta, a'u bod yn gofyn am gemau i'w chwarae neu ffilmiau i'w gwylio. Mae'n ymddangos fod gan y rheolwr gydberthynas dda â'r bobl a'u teuluoedd a'i bod yn hawdd mynd ati. Mae proses gwyno ar waith os bydd ei hangen.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl drwy gynnig gofal cyfannol gan amrywiaeth o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Gwelsom dystiolaeth o gyfraniad rheolaidd gan feddyg teulu a nyrsys cymunedol, yn ogystal â deintydd, optegydd a chiropodydd. Rhoddwyd canllawiau meddyginiaeth wedi'u diweddaru i'r cartref tra bod polisi newydd wrthi'n cael ei gwblhau, ac mae'r staff gofal yn cwblhau tasgau cymhwysedd meddyginiaeth gyda'r rheolwyr rhwng eu sesiynau hyfforddiant gloywi ar feddyginiaethau. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel a'i gwaredu'n briodol. Caiff meddyginiaeth PRN (fel y bo angen) ei chofnodi, ac mae'r staff gofal yn monitro'r effeithiau pan gaiff ei rhoi. Gwelsom ran o rownd feddyginiaeth a oedd yn dangos fod y staff gofal yn gymwys wrth rhoi meddyginiaeth.

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed neu gamdriniaeth. Caiff risgiau penodol i iechyd a diogelwch eu cynnwys mewn cynlluniau gofal ac asesiadau risg. Caiff y rhain eu hadolygu a chaiff nodiadau eu gwneud fel rhan o adolygiadau arweinwyr tîm. Mae polisïau priodol ar waith gan gynnwys polisïau diogelu a chwythu'r chwiban, a chafodd y polisïau hyn eu hadolygu a'u diweddaru'n ddiweddar. Mae hyfforddiant diogelu wedi'i gwblhau.

Mae un unigolyn yn byw yn y gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg ond mae hefyd yn siarad Saesneg. Mae'r staff gofal yn siarad Cymraeg yn achlysurol ag ef cymaint ag y gallant. Mae dogfennau dwyieithog ar gael gan y gwasanaeth ar gais.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn annog y bobl i ryngweithio â'i gilydd ac i ymgymryd â gweithgareddau a chadw mor brysur â phosibl drwy gydol y dydd. Gwelsom ryngweithio cynnes parhaus rhwng y staff gofal a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Dywedodd aelod o deulu un o'r bobl wrthym: *"I just can't fault what they do. I come every day, different times, it's always the same. They're just lovely here"*. Roedd y staff gofal yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i bob unigolyn ac roeddent fel petaent yn gwybod beth y byddent yn hoffi ei wneud. Ar ddiwrnod ein hymweliad, roedd dau unigolyn yn cael gofal yn eu gwely o ganlyniad i'w hiechyd, a gwelsom y staff gofal yn cadw golwg arnynt, ac yn gofalu amdanynt mewn modd cyfeillgar ond sensitif. Yn ogystal, roedd y rheolwr wrthi'n trefnu ystafell sbâr yn yr adeilad er mwyn i aelodau teulu un o'r bobl ei defnyddio, a oedd yn teithio o bell i dreulio amser â'u perthynas a oedd yn sâl.

Mae'r staff gofal yn meddu ar wybodaeth briodol i allu rhoi'r gofal cywir i'r bobl ar yr adeg gywir. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am anghenion y bobl a'r cymorth sydd ei angen arnynt i'w helpu ym mhob agwedd ar eu bywyd beunyddiol. Gwelsom dystiolaeth yn dangos bod cynlluniau personol wedi cael eu hailysgrifennu'n ddiweddar wrth i iechyd unigolion ddirywio ac i'w hanghenion gofal gynyddu. Dylai pob aelod o'r staff sicrhau bod dyddiad yn cael ei nodi ar y cynlluniau. Mae asesiadau risg ar waith, a chaiff siartiau ategol eu cwblhau pan fo angen. Mae'r trothwyon lle y bydd angen ymyriadau gan y staff gofal wedi cael eu hegluro'n well. Mae nodiadau dyddiol yn rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau a hwyliau cyffredinol yn ystod y dydd a'r nos. Caiff proses drosglwyddo drylwyr ei chwblhau rhwng shifftiau a chedwir dyddiadur staff sy'n cofnodi newidiadau sylweddol neu apwyntiadau arfaethedig i'r staff gofal gyfeirio ato. Mae'r bobl yn cael dewis eu prydau. Yn ôl pob golwg, roedd staff y gegin yn adnabod y bobl yn dda ac yn ymwybodol o'u hanghenion deietegol a'u dewisiadau. Roedd cydberthynas dda rhwng y staff a'r bobl pan oeddent yn yr ystafell fwyta.

Mae systemau ar waith i hyrwyddo prosesau rheoli heintiau a hylendid da. Mae canllawiau rheoli heintiau ar waith, yn seiliedig ar wybodaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gwelsom gyfarpar diogelu personol yn cael ei ddefnyddio'n briodol gan y staff drwy gydol y dydd. Mae ymwelwyr bellach yn gallu ymweld ar unrhyw adeg, am unrhyw gyfnod o amser, ac yn gallu mynd i ystafelloedd gwely'r unigolyn a'r ardaloedd cymunedol.

## Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n gwella llesiant y bobl. Mae Tŷ Llwynderw yn rhan o safle ehangach sy'n eiddo i Linc Cymru ac yn cael ei gynnal ganddo. Mae amrywiaeth o gyfleusterau fel ystafell sba, salon, a bwyty yn rhan o'r safle, a gall y bobl sy'n byw yng nghartref Tŷ Llwynderw eu defnyddio os byddant am wneud hynny. Caiff ardaloedd fel yr olchfa, yr ystafell golchi dillad a'r ystafelloedd meddyginiaeth eu cadw dan glo, er mwyn diogelu'r bobl rhag peryglon posibl y tu fewn. Ni all unigolion heb awdurdod gael mynediad i'r cartref, ac mae'r tîm rheoli yn cadw cofnodlyfr electronig o ymwelwyr.

Mae ardaloedd cymunedol mawr, ac mae gan bob ystafell wely ystafell ymolchi en suite. Caiff yr ystafelloedd gwely eu personoli o ran décor ac maent yn cynnwys eitemau personol y bobl. Gwelsom fod y cyfleustodau a'r cyfleusterau yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio. Caiff ceisiadau am waith cynnal a chadw eu cyflwyno i Linc Cymru, sy'n ymateb yn brydlon i ddatrys y mater. Mae Linc Cymru yn darparu gwasanaethau domestig a golchi dillad, ac ar ddiwrnod ein hymweliad gwelsom fod y cartref yn lân ac yn daclus a bod dillad y bobl a'u dillad gwely yn edrych yn lân. Caiff gwiriadau rheolaidd eu cynnal o'r cyfarpar a'r larymau tân, ac mae cynlluniau ar gyfer gwagio'r adeilad ar gyfer y bobl wedi'u storio yn y bocs tân os bydd argyfwng.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm cymharol gyson o staff sy'n gyfarwydd â'u hanghenion. Mae sawl aelod o'r staff gofal wedi gweithio yn y gwasanaeth ers iddo agor. Mae proses recriwtio'r cartref wedi bod yn llwyddiannus, ond o ganlyniad i absenoldeb hirdymor oherwydd salwch, caiff staff asiantaeth eu defnyddio. Caiff y rhain eu trefnu mewn bloc a chaiff unigolion eu dewis gan y rheolwr i hyrwyddo parhad gofal. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom lefelau staffio a oedd yn golygu, ar y cyfan, y gallai'r staff gofal roi cymorth i'r bobl heb ruthro, a bod digon o amser ganddynt i eistedd ac ymgysylltu â nhw rhwng tasgau. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym: *"it has been hard, but we all want the best for the people that live here so we try and cover as many of the shifts ourselves as we can"* a *"[the manager] is on it, you can call for her for any problem or mistake and she'll come and help you sort it out"*.

Caiff y staff gofal eu recriwtio a'u fetio'n briodol cyn iddynt ddechrau yn eu swydd. Caiff gwiriadau recriwtio eu cynnal gan adran Adnoddau Dynol yr Awdurdod Lleol, a fydd wedyn yn cyflwyno geirdaon i'r rheolwr ac yn rhoi gwybod am unrhyw faterion er mwyn gallu awdurdodi dyddiad dechrau. Caiff gwiriadau'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd (DBS) eu cynnal fel rhan o'r broses recriwtio, ac yna caiff y staff eu hysbysu pan fydd angen iddynt adnewyddu eu tystysgrifau. Mae'r staff gofal wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn cael eu cefnogi'n addas yn eu rolau. Ers yr arolygiad diwethaf, gwnaed cynnydd o ran lefelau'r staff gofal sydd wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol gofynnol, wrth i gyfyngiadau COVID-19 gael eu llacio, ac iddi ddod yn haws trefnu cyrsiau hyfforddiant. Mae sesiynau goruchwylio, sef sesiynau un i un rhwng y staff gofal a'u rheolwr llinell, ac arfarniadau blynyddol, yn cael eu cynnal mor rheolaidd ag sy'n ofynnol.

Mae systemau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Ar hyn o bryd, nid oes Unigolyn Cyfrifol wedi'i enwebu i'r swydd, ond mae'r unigolyn sy'n gwneud cais am y rôl wedi ymweld â'r gwasanaeth ac yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau rheoleiddiol. Cwblhawyd yr ymweliadau monitro chwarterol hyd yn hyn gan yr Unigolyn Cyfrifol blaenorol, gan nodi'r adborth gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, y staff ac unrhyw aelodau o deuluoedd neu weithwyr proffesiynol sy'n ymweld. Cwblhawyd adroddiad bob chwe mis ar ansawdd y gofal, gan nodi beth sy'n gweithio'n dda yn y gwasanaeth a beth sydd angen ei wella. Cafodd y polisïau a'r gweithdrefnau craidd, sy'n helpu'r staff i ymdrin ag amrywiol agweddau ar eu rolau, eu hadolygu a'u diweddaru'n ddiweddar.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 36 | Mae angen sicrhau bod y staff gofal wedi ymgymryd â'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf er mwyn darparu'r gofal gorau posibl. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 31/03/2023